

Teitl: Title:	Polisi Llety Accommodation Policy
Fersiwn: Version	Tachwedd 2021 November 2021
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr sy'n byw yn Llety Myfyrwyr yn Llysfasi Students who reside in the Student Accommodation at Llysfasi

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	<i>Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr</i> <i>Student Services Manager</i>		
Ymgynghoriad/ Consultation:	Rhestrwch nhw / Please list		
Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	<i>Pawb</i> <i>All</i>	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	21/03/22
Corff Llywodraethu / Governing Body:	06/04/2022		
Dyddiad Adolygu: Review Date:	08/12/24		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Tabl Cynnwys

Enw'r Strategaeth / Polisi

1. Diben	2
2. Cwmpas	2
3. Prif Egwyddorion	2/3
4. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	3
5. Cyfeiriadau	3
6. Rhestr Termau	3

Strategaeth / Polisi

1. Diben

Mae lles y dysgwyr preswyl yn bwysig ac rydym wedi ymrwymo i ddilyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Llety gan Golegau Addysg Bellach (Medi 2018) a chanllawiau Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Wrth fyw mewn cymuned wledig, y nod yw sicrhau darpariaeth lle byw, gofal a lles o ansawdd uchel i bawb trwy gydol eu hamser yn y coleg.

Mae gan Goleg Cambria set eglur o ddatganiadau a gyhoeddir yn y Llawlyfr sy'n cael ei ddosbarthu i ddysgwyr bob blwyddyn. Cynhelir adolygiadau yn rheolaidd er mwyn diweddarau'r datganiadau hyn.

2. Cwmpas

Nod Coleg Cambria yw darparu amgylchedd sy'n groesawgar, iach, diogel ac yn gynhwysfawr yn eu llety preswyl ar safle Llysfasi. Mae diogelwch a llesiant dysgwyr yn brif flaenoriaeth, a rhoddir gwybodaeth i'r myfyrwyr mewn Llawlyfr (Aros ac Astudio) er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ymroddiad y coleg iddynt. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob dysgwr preswyl yn y llety ar safle Llysfasi.

3. Prif Egwyddorion

Mae gan y llety dîm gwasanaethau preswyl pwrpasol sy'n cydgysylltu â'r staff rheoli, cefnogi a chwricwlwm trwy'r coleg i weithredu polisïau a gweithdrefnau effeithiol sy'n sicrhau amgylchedd preswyl sy'n meithrin dysgu, hunanddatblygiad, edmygedd a pharch

tuag at eraill. Mae gan y Tîm Diogelu cyfrifoldeb penodol i sicrhau fod pawb yn deall a dilyn polisiâu Diogelu a Prevent.

Ymgymera'r Adran Adnoddau Dynol â recriwtio a chyflogi staff yn ddiogel, sy'n golygu dilyn deddfwriaeth a sicrhau fod pob gwiriad recriwtio yn cael ei gwblhau gyda Fetio a Gwahardd, a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Recriwtio Staff yn cael ei ymgymryd ar gyfer staff preswyl yn unol â'r polisi a'r weithdrefn.

Mae gan y coleg God Ymddygiad a hyrwyddir ar y cyd â Gwerthoedd Prydeinig. Mae Polisi Disgyblu Dysgwyr mewn grym i sicrhau tegwch a chysondeb gyda dysgwyr. Ymdrinnir ag unrhyw achos disgyblaethol yn ymwneud â dysgwr sy'n byw yn y llety gan staff preswyl a chwricwlwm.

Mae gan y coleg weithdrefn eglur o roi gwybod am ddysgwyr coll sydd o dan 18 oed a delio gyda sefyllfa felly, ac mae'n cynnwys rhieni/gofalwyr a'r gwasanaethau brys pan fo angen.

4. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae gan y coleg fynediad at y Gronfa Ariannol Wrth Gefn a awdurdodir gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei weinyddu gan y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr. Mae hyn yn sicrhau nad yw'r dysgwyr sy'n dewis y ddarpariaeth breswyl dan anfantais oherwydd materion ariannol.

5. Cyfeiriadau

Mae Llwylyfr Llety Llysfasi (dwyieithog) yn cynnwys gwybodaeth am:

- Llesiant Myfyrwyr
- Llety
- Cerbydau Myfyrwyr
- Gwybodaeth Feddygol
- Cyfleusterau Lleol
- Gweithdrefn Argyfwng / Ymarferion Tân
- Gweithdrefn Cwynion

6. Rhestr Termau

Mae'r polisi hwn yn gysylltiedig â;

- Polisi Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd
- Polisi a Gweithdrefn ar gyfer recriwtio, dethol a phenodi Staff
- Polisi Diogelu
- Polisi Prevent
- Polisi Dysgwyr Coll
- Cod Ymddygiad Myfyrwyr
- Polisi Disgyblu Dysgwyr
- Polisi Cronfa Ariannol Wrth Gefn

- Gweithdrefn Chwilio Ystafelloedd
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Cytundebau (a arwyddwyd gan rieni)